

# Arsylwi etholiadol mewn etholiadau a refferenda yn y Deyrnas Unedig

Cod ymarfer i arsylwyr etholiadol



(h) Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [comisiwnetholiadol.org.uk/](http://comisiwnetholiadol.org.uk/)

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon i:

3 Bunhill Row,  
London  
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 1031929

E-bost: [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

|

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
	Arsylwi etholiadol yn y DU .....	1
<b>2</b>	<b>Rhan A: Bod yn arsylwr etholiadol .....</b>	<b>2</b>
	Pwy all fod yn arsylwr? .....	2
	Beth mae arsylwyr yn ei wneud? .....	2
	Sut i ddod yn arsylwr .....	3
	Beth fydd yn digwydd ar ôl i gais gael ei gyflwyno? .....	5
	Adnewyddu achrediad .....	7
<b>3</b>	<b>Y safonau y disgwylir i arsylwyr gadw atynt.....</b>	<b>8</b>
	Eich ymddygiad fel arsylwyr etholiadol .....	8
	Methu â chyrraedd y safonau hyn .....	10
<b>4</b>	<b>Rhan B: Hwyluso arsylwadau etholiadol.....</b>	<b>12</b>
	Rheoli mynediad i weithrediadau etholiadol .....	12
	Canllawiau ar ddelio â chamymddwyn neu ymddygiad sy'n tarfu .....	14

# 1 Cyflwyniad

## Arsylwi etholiadol yn y DU

1.1 Mae arsylwi annibynnol yn rhan hanfodol o'r broses etholiadol. Mae'n helpu i sicrhau bod etholiadau a refferenda perthnasol<sup>1</sup> yn cael eu cynnal mewn modd tryloyw, hygyrch, diduedd a diogel.

1.2 O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), rydym yn gyfrifol am achredu unigolion a sefydliadau sy'n dymuno arsylwi ar brosesau etholiadol mewn etholiadau a refferenda perthnasol a gynhelir yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn gyfrifol am lunio a gorfodi Cod ymarfer y mae'n rhaid i arsylwyr achrededig gydymffurfio ag ef.

1.3 Rydym yn dilyn y Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Arsylwi ar Etholiadau yn Rhyngwladol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Arsylwyr Etholiadau Rhyngwladol<sup>2</sup> sy'n pennu'r sail ar gyfer arsylwi dibynadwy mewn etholiadau yn rhyngwladol.

1.4 Mae dwy ran i'r Cod Ymarfer hwn: mae Rhan A yn esbonio sut i ddod yn arsylwr a'r hyn a ddisgwylir; ac mae Rhan B yn rhoi canllawiau i swyddogion etholiadol ar weithio gydag arsylwyr.

---

<sup>1</sup> Ystyr refferendwm perthnasol yw Refferendwm a gynhelir o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

<sup>2</sup> [http://www.ndi.org/sites/default/files/1923\\_declaration\\_102705\\_0.pdf](http://www.ndi.org/sites/default/files/1923_declaration_102705_0.pdf).

## 2 Rhan A: Bod yn arsylwr etholiadol

2.1 Mae'r rhan hon yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi:

- pwy all fod yn arsylwr
- yr hyn y mae arsylwyr yn ei wneud
- sut i ddod yn arsylwr
- y safonau y disgwylir i arsylwyr gadw atynt, a'r hyn fydd yn digwydd os na chyrhaeddir y safonau hyn

### Pwy all fod yn arsylwr?

2.2 Gall unrhyw un dros 16 oed, gan gynnwys rhywun o'r tu allan i'r DU, wneud cais i ddod yn arsylwr etholiadol, ar yr amod ei fod yn ddi-dduedd yn wleidyddol.

2.3 Mae dau fath o arsylwyr mewn etholiadau a refferenda perthnasol yn y DU: unigolion a sefydliadau arsylwi. Gall unigolion a sefydliadau arsylwi gael eu hachredu i arsylwi ar weithrediadau penodedig mewn etholiadau a refferenda perthnasol ledled y Deyrnas Unedig.

2.4 Rydym yn cynnal cofrestr gyhoeddus o arsylwyr a gaiff ei chyhoeddi ar ein gwefan. Y gofrestr gyhoeddus hon yw'r unig restr swyddogol o arsylwyr achrededig ac mae'n cynnwys enw pob arsylwr achrededig.

2.5 Bydd pawb sydd ar y gofrestr yn cael cerdyn adnabod gan y Comisiwn.

2.6 Mae gan arsylwyr etholiadol achrededig hawl i arsylwi ar weithrediadau etholiadol penodedig. Nid yw'n ofynnol i chi roi gwybod i swyddogion etholiadol eich bod yn bwriadu arsylwi ar y gweithrediadau hyn.

2.7 Fodd bynnag, bydd rhoi gwybod ymlaen llaw i swyddogion etholiadol yn yr ardal lle rydych yn bwriadu arsylwi yn golygu y gallant roi gwybodaeth leol berthnasol i chi, fel y rhestr o orsafoedd pleidleisio yn yr ardal, a fydd yn helpu i sicrhau bod eich arsylwad mor werthfawr â phosibl. Nid yw hyn yn eich atal rhag ymweld â lleoliadau yn ddirybudd na newid eich cynlluniau os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

2.8 Os ydych yn dymuno rhoi gwybod ymlaen llaw ble rydych yn bwriadu arsylwi, mae cyfeiriadau a rhifau ffôn swyddfeydd etholiadol lleol i'w gweld ar-lein neu drwy gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol neu'r Comisiwn.

### Beth mae arsylwyr yn ei wneud?

2.9 Mae gan arsylwyr sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn yr hawl i arsylwi ar y canlynol:

- anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau

2.10 Mae gan arsylwyr unigol sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn hefyd hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif mewn deiseb adalw.<sup>3</sup>

2.11 Byddem yn eich annog i roi adborth i'r Comisiwn ac i'r staff etholiad lle byddwch yn arsylwi. Os byddwch yn rhoi adborth i'r Comisiwn, mae'n bosibl y byddwn yn ei rannu â'r bobl sy'n gyfrifol am gynnal y digwyddiad pleidleisio yn yr ardal lle roeddech yn arsylwi. Mae'r broses o roi adborth yn gwbl wirfoddol ac nid oes rhaid i chi ddefnyddio unrhyw dempled a ddarperir gennym.

## Sut i ddod yn arsylwr

2.12 Cyn gwneud cais, rhaid i ymgeiswyr ddarllen y Cod ymarfer hwn a bod yn barod i lynu wrtho.

2.13 Gallwch wneud cais i ddod yn arsylwr unrhyw bryd. Bydd eich achrediad yn para am gyfnod o hyd at dair blynedd. Fodd bynnag, gallwch ofyn am achrediad byrrach. Argymhellir na ddylai darpar arsylwyr aros nes bod etholiad neu refferendwm ar fin dechrau neu wedi dechrau cyn gwneud cais. Efallai na fydd ceisiadau a ddaw i law 10 diwrnod gwaith neu lai cyn y diwrnod pleidleisio yn cael eu prosesu mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw.

## Beth yw'r broses o wneud cais?

2.14 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud y canlynol:

- cwblhau'r ffurflen gais briodol i gael eu hachredu
- cyflwyno ffotograff mewn fformat electronig, e.e. drwy e-bost, i'w ddefnyddio ar fathodyn adnabod<sup>4</sup>, neu fynd i un o swyddfeydd y Comisiwn i gael tynnu eu llun

Rhaid i'r ffotograff fodloni'r amodau canlynol:

- llun o ben yr ymgeisydd yn wynebu'r camera
- wyneb llawn yr ymgeisydd i'w weld yn glir<sup>5</sup>
- llygaid yr ymgeisydd ar agor

<sup>3</sup> Rheoliad 150 o Reoliadau Deddf Adalw ASau 2015 (Deiseb Adalw) 2016.

<sup>4</sup> Mae JPEG, BMP a TIFF i gyd yn fformatau derbyniol. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad yw'r ddelwedd wedi'i diogelu rhag cael ei chopio, fel bod modd ei throsglwyddo i'r bathodyn adnabod.

<sup>5</sup> Ni chaniateir hetiau na gorchuddion dros y pen oni chânt eu gwisgo am resymau crefyddol, a hynny dim ond os yw nodweddion llawn y wyneb i'w gweld yn glir.

- cyflwyno copi darllenadwy o basbort, trwydded yrru, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn adnabod etholiadol Gogledd Iwerddon ar adeg y cais sy'n cadarnhau enw ac oedran yr ymgeisydd<sup>6</sup>
- nodi am faint o amser, hyd at dair blynedd, yr hoffent fod wedi'u hachredu
- gwneud datganiad sy'n nodi eu bod wedi darllen ein Cod Ymarfer ar gyfer arsylwi etholiadol a'u bod yn cytuno i gydymffurfio â'r canllawiau ynddo
- datgan eu bod wedi cael copi o'r darpariaethau deddfwriaethol ynghylch cyfrinachedd y bleidlais, eu bod yn deall y darpariaethau ac y byddant yn cynnal cyfrinachedd y bleidlais
- datgan y byddant yn aros yn gwbl ddiuedd yn wleidyddol bob amser yn ystod cyfnod eu hachrediad (mae paragraffau **3.7** i **3.10** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddiueddrwydd gwleidyddol)

### Sefydliadau arsylwi

Mae'n ofynnol i sefydliadau arsylwi wneud y canlynol:

- nodi am faint o amser, hyd at dair blynedd, yr hoffent fod wedi'u hachredu fel sefydliad
- datgan eu bod wedi rhoi copi o'r darpariaethau deddfwriaethol ynghylch cyfrinachedd y bleidlais i'w haelodau enwebedig ac y byddant yn helpu i gynnal cyfrinachedd y bleidlais

Dylai'r sefydliad hefyd sicrhau bod eu harsylwyr enwebedig yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn.

### Enwebu unigolion

Rhaid i sefydliad achrededig gyflwyno rhestr o unigolion a enwebir i weithredu fel arsylwyr. Gellir cyflwyno'r rhestr hon ar adeg y cais am achrediad neu unrhyw bryd ar ôl hynny.

Wrth gyflwyno'r rhestr o unigolion enwebedig, rhaid i'r rhestr gynnwys datganiad bod yr unigolyn enwebedig wedi cael copi o'r darpariaethau deddfwriaethol ynghylch cyfrinachedd y bleidlais, ei fod yn deall y darpariaethau ac y bydd yn cynnal cyfrinachedd y bleidlais.

Hefyd, rhaid i bob unigolyn enwebedig gyflwyno:

- ffotograff mewn fformat electronig, e.e. drwy e-bost, i'w ddefnyddio ar fathodyn adnabod<sup>7</sup>

<sup>6</sup> Dylai ymgeiswyr nad oes ganddynt unrhyw ddogfennau adnabod ffotograffig o'r fath gysylltu â ni i ofyn am gyngor.

- Rhaid i'r ffotograff fodloni'r amodau canlynol:
  - llun o ben yr ymgeisydd yn wynebu'r camera
  - wyneb llawn yr ymgeisydd i'w weld yn glir<sup>8</sup>
  - llygaid yr ymgeisydd ar agor
- copi darllenadwy o basbort, trwydded yrru, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn adnabod etholiadol Gogledd Iwerddon ar adeg y cais sy'n cadarnhau enw ac oedran yr ymgeisydd<sup>9</sup>
- datganiad y bydd yn aros yn gwbl ddiuedd yn wleidyddol bob amser yn ystod cyfnod ei achrediad (mae paragraffau **3.7** i **3.10** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddiueddrwydd gwleidyddol)
- datganiad ei fod wedi cael copi o'r darpariaethau deddfwriaethol ynghylch cyfrinachedd y bleidlais a chopi o'r Cod Ymarfer i arsylwyr etholiadol a'i fod yn cytuno i gydymffurfio â nhw

## Sut y dylid cyflwyno ceisiadau?

2.15 Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein, neu gallwch lawrlwytho ffurflen gais o'n gwefan a'i hanfon drwy e-bost i: [observers@electoralcommission.org.uk](mailto:observers@electoralcommission.org.uk).

2.16 Gellir hefyd gyflwyno ceisiadau drwy'r post i unrhyw rai o'n swyddfeydd. Os byddwch yn cyflwyno cais drwy'r post, rhowch y geiriau 'Cais i fod yn arsylwr etholiadol' / 'Electoral observation application' cyn cyfeiriad y swyddfa.

2.17 Os bydd angen cymorth arnoch i gwblhau eich cais, cysylltwch â ni ar 0333 103 1929.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i gais gael ei gyflwyno?

2.18 Ar ôl i'ch cais ddod i law, byddwn yn cynnal gwiriadau mewn perthynas â gweithgarwch gwleidyddol, gan gynnwys yn y cyfryngau cymdeithasol, fel y nodir yn ein hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan.

---

<sup>7</sup> Mae JPEG, BMP a TIFF i gyd yn fformatau derbyniol. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad yw'r ddelwedd wedi'i diogelu rhag cael ei chopio, fel bod modd ei throsglwyddo i'r bathodyn adnabod.

<sup>8</sup> Ni chaniateir hetiau na gorchuddion dros y pen oni chânt eu gwisgo am resymau crefyddol, a hynny dim ond os yw nodweddion llawn y wyneb i'w gweld yn glir.

<sup>9</sup> Dylai ymgeiswyr nad oes ganddynt unrhyw ddogfennau adnabod ffotograffig o'r fath gysylltu â ni i ofyn am gyngor.



2.19 Anelwn at brosesu pob cais sydd wedi'i gwblhau o fewn 10 diwrnod iddo ddod i law, ond gall y gwiriadau gymryd mwy o amser o bryd i'w gilydd. Hefyd, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth.

## Gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau

2.20 Rhaid i'r canlynol fod yn wir am ymgeisydd, neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys ar restr sefydliad arsylwi o unigolion enwebedig:

- mae'n bodloni gofynion y broses gwneud cais a nodir uchod
- nid yw wedi'i gael yn euog neu ni chofnodwyd ei fod yn euog (o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall yn y Deyrnas Unedig) o arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig
- nid yw ei achrediad wedi cael ei ddiddymu gan y Comisiwn yn ystod y pum mlynedd diwethaf

2.21 Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig o'n penderfyniad i dderbyn neu wrthod eu cais.

2.22 Ni fydd yr achrediad yn dod i rym tan y pedwerydd diwrnod ar ôl iddo gael ei roi. Ar ôl i gais gael ei gymeradwyo, bydd enw'r ymgeisydd yn cael ei gynnwys ar y gofrestr o arsylwyr achrededig.

### Sefydliadau arsylwi

Nid oes cyfyngiad ar nifer yr arsylwyr y gall unrhyw sefydliad eu henwebu.

Bydd achrediad unigolyn enwebedig yn para am gyfnod o hyd at dair blynedd. Fodd bynnag, gellir gofyn am gyfnod achrediad byrrach.

Mae sefydliadau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i ni drwy anfon e-bost i [observers@electoralcommission.org.uk](mailto:observers@electoralcommission.org.uk) os ydynt am dynnu enw unigolyn enwebedig oddi ar eu rhestr neu os nad oes gan yr unigolyn enwebedig hawl i fod wedi'i achredu mwyach.

## Beth fydd yn digwydd os caiff fy nghais ei wrthod?

2.23 Byddwn yn gwrthod cais am achrediad os na chaiff gofynion y broses gwneud cais a nodir yn y Cod hwn eu bodloni, neu os na chawn ein bodloni wrth gynnal gwiriadau fod ymgeisydd yn ddiuedd yn wleidyddol.

2.24 Hefyd, byddwn yn gwrthod cais os yw'r ymgeisydd yn rhywun y mae ei statws yn y Deyrnas Unedig fel arsylwr achrededig neu un o unigolion enwebedig sefydliad achrededig wedi cael ei ddiddymu gan y Comisiwn yn ystod y pum mlynedd cyn dyddiad y cais.

2.25 Os caiff cais ei wrthod, bydd y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw'n cael eu rhoi yn ysgrifenedig. Gall yr unigolyn neu'r sefydliad gyflwyno cais arall ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod hwn.

2.26 Os bydd ymgeiswyr am apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod eu cais, dylent wneud hynny'n ysgrifenedig drwy anfon e-bost i [observers@electoralcommission.org.uk](mailto:observers@electoralcommission.org.uk). Gellir apelio drwy'r post hefyd, ac mae cyfeiriadau pob un o'n swyddfeydd i'w gweld ar ein gwefan.

2.27 Er mwyn i'ch apêl gael ei hystyried, rhaid iddi ddod i law o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad bod eich cais wedi cael ei wrthod.

## Adnewyddu achrediad

2.28 Oni ofynnir am gyfnod achrediad byrrach ar y ffurflen gais, bydd achrediad arsylwyr unigol yn ddilys tan 31 Rhagfyr yn y drydedd flwyddyn ar ôl y dyddiad dyroddi. Bydd y dyddiad gorffen hwn wedi'i nodi ar y cerdyn adnabod.

### **Sefydliadau arsylwi**

Oni ofynnir am gyfnod achrediad byrrach ar y ffurflen gais, bydd achrediad sefydliad arsylwi yn ddilys am hyd at dair blynedd. Bydd y tair blynedd yn dechrau ar y dyddiad y cafodd y cais ei gymeradwyo a bydd yn dod i ben ar ddiwedd y drydedd flwyddyn galendr ar ôl y dyddiad achredu.

### **Unigolion enwebedig**

Oni ofynnir am gyfnod byrrach, bydd y cerdyn adnabod a roddir i unigolion enwebedig yn ddilys tan 31 Rhagfyr yn y drydedd flwyddyn ar ôl y dyddiad dyroddi. Bydd hyn wedi'i nodi ar y cerdyn adnabod.

2.29 Byddwn yn ysgrifennu at unigolion a sefydliadau arsylwi achrededig ychydig cyn i'w hachrediad ddod i ben yn eu gwahodd i wneud cais newydd.

2.30 Os byddwch yn penderfynu am ba reswm bynnag yn ystod cyfnod eich achrediad nad ydych am barhau i fod wedi'ch cofrestru mwyach, cysylltwch â ni yn [observers@electoralcommission.org.uk](mailto:observers@electoralcommission.org.uk) a byddwn yn tynnu eich manylion oddi ar y gofrestr o arsylwyr achrededig.

## 3 Y safonau y disgwylir i arsylwyr gadw atynt

3.1 Disgwylir i bob arsylwr achrededig gadw at y safonau ymddygiad hyn. Maent hefyd yn gymwys i gynrychiolwyr y Comisiwn.

3.2 Rhaid i bob ymgeisydd ddarllen y canllawiau hyn cyn cwblhau ffurflen gais. Wrth gwblhau ffurflen gais, gofynnir i'r ymgeiswyr lofnodi datganiad sy'n nodi eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r canllawiau hyn drwy gydol cyfnod eu hachrediad.

3.3 Os bydd arsylwyr yn methu â chydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn yr adran hon, mae'n bosibl y caiff eu hachrediad ei ddiddymu.

### Eich ymddygiad fel arsylwyr etholiadol

3.4 Rhaid i bob arsylwr ddarllen yr egwyddorion a nodir isod a chytuno i'w dilyn.

#### Parchu cyfreithiau'r Deyrnas Unedig ac awdurdod cyrff etholiadol

3.5 Rhaid i arsylwyr barchu cyfreithiau'r Deyrnas Unedig yn ogystal ag awdurdod Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a'r Comisiwn a dilyn unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon gan awdurdodau llywodraethol, diogelwch ac etholiadol y DU.

3.6 Rhaid i arsylwyr hefyd ddangos parch at swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol eraill bob amser.

#### Bod yn gwbl ddiuedd yn wleidyddol bob amser

3.7 Rhaid i arsylwyr fod yn gwbl ddiuedd yn wleidyddol bob amser yn ystod cyfnod eu hachrediad, gan gynnwys yn ystod eu hamser hamdden ac wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ni chânt fynegi nac arddangos unrhyw duedd na ffafriaeth mewn perthynas ag awdurdodau cenedlaethol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr na materion refferendwm.

3.8 Hefyd, ni chaiff arsylwyr ymwneud ag unrhyw weithgarwch y gallai fod yn rhesymol ystyried ei fod yn ffafrio unrhyw gystadleuydd gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig neu'n rhoi mantais bleidiol iddo, fel gwisgo neu arddangos unrhyw symbolau, lliwiau neu faneri pleidiol, neu dderbyn unrhyw beth o werth gan gystadleuwyr gwleidyddol.

3.9 Nid yw cysylltiad â phlaid wleidyddol, na bod yn gysylltiedig â grŵp ymgyrchu nad yw'n blaid, yn anghymwysu rhywun rhag cael ei achredu fel arsylwr yn awtomatig. Fodd bynnag, **ni chaiff** aelodau, swyddogion na chyflogeion plaid wleidyddol gofrestredig yn y DU a fyddai, neu sy'n debygol o fod, yn weithgar yn wleidyddol yn ystod cyfnod eu hachrediad, wneud cais i gael eu hachredu.

3.10 O dan yr holl amgylchiadau, rhaid i'r ymgeiswyr fod yn fodlon y byddant yn gallu bodloni'r gofyniad am ddiueddrwydd gwleidyddol a nodir uchod drwy gydol eu hachrediad.

## Cydymffurfio â'r gofynion cyfrinachedd

3.11 Rhaid i arsylwyr gynnal cyfrinachedd y bleidlais a helpu i'w gynnal.

3.12 Rhaid i arsylwyr gydymffurfio â phob cyfarwyddyd ynghylch defnyddio offer electronig cludadwy, fel ffonau symudol, llechi, gliwiaduron, offer recordio electronig, camerâu ac ati.

## Peidio â rhwystro prosesau etholiadol

3.13 Rhaid i arsylwyr sicrhau nad ydynt yn rhwystro unrhyw elfen o brosesau etholiadol, gan gynnwys prosesau cyn etholiad, anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, pleidleisio, cyfrif a chyfrifo canlyniadau a phrosesau a gyflawnir ar ôl y diwrnod pleidleisio.

3.14 Caiff arsylwyr ddwyn afreoleidd-dra, twyll neu broblemau sylweddol i sylw swyddogion etholiad yn y fan a'r lle, oni fyddai hyn yn groes i'r gofynion cyfrinachedd, a rhaid iddynt wneud hynny mewn modd nad yw'n rhwystro'r prosesau dan sylw.

3.15 Caiff arsylwyr ofyn cwestiynau i swyddogion etholiad, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ac arsylwyr eraill ac ateb cwestiynau am eu gweithgareddau eu hunain, ar yr amod nad yw arsylwyr yn rhwystro unrhyw broses etholiadol. Wrth ofyn neu ateb cwestiynau, ni chaiff arsylwyr geisio cyfarwyddo unrhyw broses etholiadol.

3.16 Caiff arsylwyr ofyn cwestiynau i bleidleiswyr ac ateb cwestiynau ganddynt, ond ni chânt ofyn iddynt dros bwy neu ba blaid neu safbwynt refferendwm y gwnaethant bleidleisio.

## Cyflwyno manylion adnabod priodol

3.17 Rhaid i bob arsylwr ddangos y bathodyn adnabod a roddwyd gan y Comisiwn, a'i gyflwyno i swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol eraill sydd â diddordeb ar gais.

3.18 Rhaid i arsylwyr sicrhau bod eu cerdyn adnabod arsylwr yn weladwy bob amser wrth arsylwi.

3.19 Ni chaiff arsylwyr roi'r argraff eu bod yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn, yn cynrychioli'r Comisiwn nac yn arsylwi ar ran y Comisiwn. Os gofynnir iddynt, rhaid i arsylwyr nodi eu bod yn arsylwr etholiadol ac yn annibynnol ar y Comisiwn.

## Cynnal cywirdeb arsylwadau a phroffesiynoldeb wrth ddod i gasgliadau

3.20 Rhaid i arsylwyr sicrhau bod eu holl arsylwadau yn gywir. Rhaid i'r arsylwadau fod yn gynhwysfawr, gan nodi ffactorau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol, gan wahaniaethu

rhwng ffactorau pwysig a dibwys a nodi patrymau a allai gael effaith bwysig ar uniondeb prosesau etholiadol. Rhaid i ddyfarniadau arsylwyr fod yn seiliedig ar y safonau uchaf o ran cywirdeb gwybodaeth a dadansoddi diduedd, gan wahaniaethu rhwng ffactorau goddrychol a thystiolaeth wrthrychol.

3.21 Rhaid i arsylwyr seilio pob casgliad ar dystiolaeth ffeithiol y gellir ei gwirio a pheidio â dod i gasgliadau yn rhy gynnar.

3.22 Anogir arsylwyr achrededig i roi adborth ar eu harsylwadau. Byddem yn eich annog i roi adborth i'r Comisiwn ac i'r staff etholiad lle byddwch yn arsylwi. Os byddwch yn rhoi adborth i'r Comisiwn, mae'n bosibl y byddwn yn ei rannu â'r bobl sy'n gyfrifol am gynnal y digwyddiad pleidleisio yn yr ardal lle roeddech yn arsylwi. Mae'r broses o roi adborth yn gwbl wirfoddol ac nid oes rhaid i chi ddefnyddio unrhyw dempled a ddarperir gennym.

## Cynnal ymddygiad personol priodol

3.23 Rhaid i arsylwyr gynnal ymddygiad personol priodol a pharchu eraill, gan gynnwys dangos sensitifrwydd at ddiwyllianau ac arferion yn y Deyrnas Unedig, arfer barn gadarn wrth ryngweithio'n bersonol a chadw at y lefel uchaf o ymddygiad proffesiynol bob amser, gan gynnwys yn ystod eu hamser hamdden.

## Methu â chyrraedd y safonau hyn

3.24 Os bydd arsylwyr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu, gellir eu hanfon allan o'r gweithrediadau etholiadol a/neu ddiddymu eu hachrediad.

3.25 Gallwn ddiddymu achrediad arsylwr, sefydliad, neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys ar restr sefydliad arsylwi:

- os yw'n methu â chydymffurfio â'r safonau ymddygiad hyn
- os bydd wedi'i gael yn euog, neu os cofnodir ei fod yn euog (o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall yn y Deyrnas Unedig) o arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig

3.26 Os bydd swyddog perthnasol<sup>10</sup> wedi anfon arsylwr allan o weithrediad etholiadol penodol o ganlyniad i gamymddwyn, byddwn ond yn diddymu ei achrediad os ydym o'r farn nad oedd yr unigolyn yn cydymffurfio â'r Cod hwn a'r canllawiau ynddo.

3.27 Mae camymddwyn yn cynnwys:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro gweithrediadau etholiadol yn fwriadol

---

<sup>10</sup> Defnyddir y term 'swyddog perthnasol' i gyfeirio at Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu.

- gofyn i etholwyr am eu dewisiadau pleidleisio wrth arsylwi mewn gorsafoedd pleidleisio

3.28 Mae pŵer swyddogion perthnasol i anfon arsylwyr allan am gamymddwyn yn ychwanegol at eu pŵer cyffredinol i gadw trefn yn y gweithrediad etholiadol perthnasol. Mae arsylwyr yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau cyfreithlon swyddogion perthnasol.

3.29 Ar ôl cael adroddiad gan swyddog perthnasol, byddwn yn cysylltu â'r arsylwr dan sylw ac yn rhoi cyfle iddo gyflwyno, yn ysgrifenedig, ei fersiwn ef o'r digwyddiadau. Byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynir i ni ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael cyn gwneud penderfyniad. Byddwn yn rhoi gwybod i'r arsylwr yn ysgrifenedig beth yw ein penderfyniad.

### **Sefydliadau arsylwi**

Gallwn hefyd ddiddymu achrediad sefydliadau arsylwi os bydd y sefydliad yn gwrthod tynnu enw arsylwr y canfyddir ei fod yn torri'r Cod hwn oddi ar ei restr o unigolion enwebedig yn brydlon.

3.30 Dylai arsylwyr sydd am apelio yn erbyn diddymiad wneud hynny'n ysgrifenedig drwy anfon e-bost i'r Comisiwn yn [observers@electoralcommission.org.uk](mailto:observers@electoralcommission.org.uk). Gellir apelio drwy'r post hefyd, ac mae cyfeiriadau pob un o'n swyddfeydd i'w gweld ar ein gwefan.

3.31 Er mwyn i'ch apêl gael ei hystyried, rhaid iddi ddod i law o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad bod eich achrediad yn cael ei ddiddymu.

# 4 Rhan B: Hwyluso arsylwadau etholiadol

4.1 Mae'r rhan hon yn ymdrin â'r canlynol:

- canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu<sup>11</sup>
- sut y dylent reoli mynediad i weithrediadau etholiadol ac ymddygiad ynddynt
- sut y dylent ddelio â chamymddwyn a/neu ymddygiad sy'n tarfu

4.2 Dylai arsylwyr achrededig hefyd ddarllen yr adran hon o'r Cod Ymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddeall ac yn gyfarwydd ag ef.

## Rheoli mynediad i weithrediadau etholiadol

4.3 Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid gofalu na chaiff arsylwyr eu rhwystro na'u hatal rhag arsylwi.

### Beth mae arsylwyr yn ei wneud?

4.4 Mae gan arsylwyr sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn yr hawl i arsylwi ar y canlynol:

- anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post<sup>12</sup>
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau

4.5 Mae gan arsylwyr unigol sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn hefyd hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif mewn deiseb adalw.<sup>13</sup>

4.6 Er nad yw'n ofynnol i arsylwyr roi gwybod ymlaen llaw ble maent yn bwriadu arsylwi, rydym yn eu cynghori y bydd gwneud hynny yn helpu swyddogion perthnasol<sup>14</sup> i roi

---

<sup>11</sup> Mae PPERA yn nodi bod yn rhaid i'r Cod hwn gynnwys canllawiau i swyddogion perthnasol ar eu pŵer i gyfyngu ar niferoedd arsylwyr a chanslo hawl arsylwr i fod yn bresennol mewn gweithrediad penodol. Mae ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a staff gorsafoedd pleidleisio, sydd ar gael ar ein gwefan, yn cynnwys rhagor o fanylion am alluogi arsylwyr i fod yn bresennol mewn gweithrediadau etholiadol penodol.

<sup>12</sup> O dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 neu ddeddfwriaeth gyfatebol, mae 'derbyn papurau pleidleisio drwy'r post' yn cyfeirio at y broses gyfan o agor a gwirio papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir. Mae gan arsylwyr hawl i fod yn bresennol mewn sesiynau agor o'r fath yn yr un modd ag ymgeiswyr ac asiantiaid.

<sup>13</sup> Rheoliad 150 o Reoliadau Deddf Adalw ASau 2015 (Deiseb Adalw) 2016.



gwybodaeth allweddol iddynt, fel y rhestr o orsafoedd pleidleisio yn yr ardal leol, ac yn helpu gyda diogelwch gweithrediadau etholiadol.

4.7 Yn yr un modd, nid yw'n ofynnol i swyddogion perthnasol fynd ati i roi gwybod i arsylwyr am amser a lleoliad gweithrediadau etholiadol, na'r prosesau i'w dilyn, ond mae'n arfer da iddynt wneud hynny. Bydd rhoi gwybodaeth i arsylwyr yn eu galluogi i arsylwi ar weithrediadau yn briodol ac yn helpu i fagu hyder yn y broses o weinyddu'r etholiad.

4.8 Rhaid i gynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig ddilyn pob cyfarwyddyd cyfreithlon gan swyddogion perthnasol a'r heddlu.

## Sut y gall swyddogion perthnasol reoli mynediad?

4.9 Mae'r gyfraith yn caniatáu i swyddog perthnasol gyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gynnal yr etholiad, anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a chyfrif pleidleisiau.<sup>15</sup>

4.10 Dim ond os yw arsylwr neu nifer o arsylwyr yn rhwystro'r gweithrediadau neu'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais y gellir cyfyngu ar niferoedd.

4.11 Dylid ond rhoi cyfarwyddyd i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr:

- am gyfnod penodedig, er enghraifft 30 neu 60 munud
- o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft:
  - yn yr orsaf bleidleisio, mae 'x' o etholwyr yn aros i bleidleisio neu 'y' o asiantiaid yn bresennol sy'n golygu y byddent yn rhwystro'r gweithrediadau
  - yn y broses o anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, neu ddilysu a chyfrif, 'mae x o asiantiaid yn bresennol' sy'n golygu y byddent yn rhwystro'r gweithrediadau hynny

4.12 Er y caniateir i swyddogion perthnasol gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg benodol yn ystod gweithrediadau etholiadol, dylid bod yn ofalus wrth wneud hynny.

4.13 Nid oes gan swyddogion perthnasol hawl i rwystro pob arsylwr rhag bod yn bresennol mewn gweithrediadau etholiadol, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg, a rhaid defnyddio'r disgrisiwn hwn mewn modd rhesymol.

4.14 Os caiff mynediad ei atal, dylai swyddogion perthnasol sicrhau eu bod yn cadw trywydd archwilio clir i ategu eu penderfyniad. Ar ein gwefan, darperir cofnod y gellir ei ddefnyddio i nodi unrhyw achlysuron pan fydd yn ofynnol cyfyngu ar niferoedd arsylwyr mewn gweithrediadau etholiadol.

---

<sup>14</sup> Defnyddir y term 'swyddog perthnasol' i gyfeirio at Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif neu Swyddogion Llywyddu.

<sup>15</sup> Adran 6E o PPERA.



4.15 Ni chaiff swyddogion perthnasol gyfyngu ar nifer cynrychiolwyr y Comisiwn a all fod yn bresennol mewn gweithrediad etholiadol.

4.16 Nid yw'r darpariaethau sy'n caniatáu i gynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr fod yn bresennol yn tynnu oddi ar ddyletswydd a chyfrifoldeb swyddogion perthnasol i gydymffurfio â'r rheolau perthnasol ar gyfer etholiadau a refferenda sy'n ymwneud â phresenoldeb pobl mewn gweithrediadau etholiadol. Ymhlith y rhain mae rheolaethau ar ganiatáu mynediad i orsafoedd pleidleisio, y ddyletswydd i gadw trefn gyhoeddus mewn gorsaf bleidleisio a'r ddyletswydd i hyrwyddo cyfrinachedd y bleidlais mewn unrhyw weithrediadau etholiadol.

4.17 Yn unol â hynny, dylai swyddogion perthnasol sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn ddigon mawr ac wedi'u trefnu'n addas er mwyn darparu ar gyfer pleidleisio effeithlon a chyfrinachol ym mhresenoldeb asiantiaid pleidleisio ac arsylwyr. Hefyd, os bydd y broses o anfon neu dderbyn papurau pleidleisio drwy'r post wedi'i gosod ar gontract allanol, rhaid i'r contract gynnwys darpariaeth ar gyfer presenoldeb arsylwyr yn y gweithrediadau, a bydd angen i swyddogion perthnasol wneud trefniadau addas gyda'u contractwyr i sicrhau y gellir cyflawni hyn.

## Canllawiau ar ddelio â chamymddwyn neu ymddygiad sy'n tarfu

4.18 Mae'r gyfraith yn caniatáu i swyddogion perthnasol anfon arsylwr achrededig allan os yw'n camymddwyn neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu.<sup>16</sup> Mae pŵer swyddogion perthnasol i anfon arsylwyr allan am gamymddwyn yn ychwanegol at eu pŵer cyffredinol i gadw trefn mewn gweithrediadau etholiadol.

4.19 Mae camymddwyn yn cynnwys:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro gweithrediadau etholiadol yn fwriadol
- gofyn i etholwyr am eu dewisiadau pleidleisio wrth arsylwi mewn gorsafoedd pleidleisio

## Sut y gall swyddogion perthnasol reoli camymddwyn neu ymddygiad sy'n tarfu?

4.20 Er y caniateir i swyddogion perthnasol anfon arsylwyr allan am gamymddwyn, dylid bod yn ofalus wrth wneud hynny.

---

<sup>16</sup> Adran 6E o PPERA.

4.21 Os bydd swyddog perthnasol yn arfer ei bŵer i anfon arsylwr achrededig allan o weithrediadau etholiadol oherwydd camymddwyn, dylai sicrhau ei fod yn cadw trywydd archwilio clir i ategu ei benderfyniad.

4.22 Gall swyddog perthnasol roi cyfarwyddyd i anfon arsylwr allan o weithrediadau etholiadol am gamymddwyn neu ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu unrhyw bryd.

4.23 Ni chaiff unrhyw arsylwr a gafodd ei anfon allan am gamymddwyn ddod yn ôl i mewn am weddill y gweithrediadau.

4.24 Mae pŵer swyddogion perthnasol i anfon arsylwyr allan am gamymddwyn yn ychwanegol at eu pŵer cyffredinol i gadw trefn yn y gweithrediad etholiadol perthnasol. Mae arsylwyr yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau cyfreithlon swyddogion perthnasol a'r heddlu o ran trefn gyhoeddus.

4.25 Dylai'r swyddog perthnasol roi gwybod yn ysgrifenedig i arsylwyr pam eu bod yn cael eu hanfon allan a chadw cofnod o'r digwyddiad a'r rhesymau drosto. Ar ein gwefan, darperir ffurflen y gellir ei defnyddio i nodi unrhyw achlysur pan gafodd arsylwr ei anfon allan o weithrediadau etholiadol oherwydd camymddwyn neu ymddygiad sy'n tarfu. Gofynnwn i swyddogion perthnasol roi gwybod i'r Comisiwn os caiff arsylwr ei anfon allan o unrhyw weithrediad etholiadol oherwydd camymddwyn neu ymddygiad sy'n tarfu.